Rhif: **WG23315**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

# Adroddiad Cryno ar yr Ymgynghoriad

## Rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 3 o'r Ddeddf, ar Asesu, a Rhan 4 o'r Ddeddf,ar Ddiwallu Anghenion, gan gynnwys cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3487 5 © Hawlfraint y Goron 2015

# Rheoliadau a chod ymarfer mewn perthynas â Rhannau 3 a 4 o'r Ddeddf - Crynodeb o'r Ymgynghoriad

**<u>Cynnwys</u>** **Tudalen**


**<u>Adran 1</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Y dystiolaeth ar gyfer newid** | **4** |
| **Y cynigion ar gyfer ymgynghori arnynt** | **5** |
| **Digwyddiadau Ymgynghori** | **7** |

**<u>Adran 2</u>**

| | |
|---|---|
| **Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad** | **2** |
| **Dadansoddiad Llywodraeth Cymru** | **19** |
| **Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr** | **25** |

## Adran 1

## Cyflwyniad

Cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 1 Mai 2014. Mae'r Ddeddf yn sail i'r fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer rheoliadau a chodau ymarfer mewn perthynas â Rhan 3 o'r Ddeddf, ar Asesu Anghenion Unigolion, a Rhan 4 o'r Ddeddf, ar Ddiwallu Anghenion, gan gynnwys cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Tachwedd 2014 a 2 Chwefror 2015.

Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ehangach drwy dudalennau rhyngrwyd Llywodraeth Cymru, cafodd yr ymgynghoriad ei ddosbarthu i'r canlynol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Y Comisiynydd Plant
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol (SSIA)
- Cynrychiolwyr Llywodraeth Leol
- Sefydliadau'r Trydydd Sector
- Awdurdodau Lleol
- Cyngor Gofal Cymru

Cafodd yr ymgynghoriad hefyd ei ddosbarthu'n ehangach drwy ein rhwydwaith cyfathrebu i sicrhau bod sefydliadau rhanddeiliaid a phartneriaid yn cael eu cynnwys yn llawn. Mae'r rhwydwaith eang hwn yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Plant yng Nghymru
- Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Fforwm Gofal Cymru

Roedd ymrwymiad i weithio gyda phobl i helpu i lunio gweithredu a chyflawni'r newid arfer a diwylliant sy'n cael ei ysgogi drwy'r Ddeddf yn sail i'r broses ymgynghori ac ymgysylltu o'r dechrau. Gwnaeth llawer o bobl ein helpu i ddatblygu'r cyfarwyddiadau polisi, y rheoliadau a'r codau ymarfer ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Cafodd grwpiau technegol

eu sefydlu i drafod a dadlau a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i helpu i lunio'r gwaith hwn. Roedd cyfansoddiad y grwpiau hyn yn ymestyn dros y sector gofal, a thu hwnt, i gwmpasu awdurdodau lleol, sectorau iechyd, gwirfoddol ac annibynnol, sefydliadau dan arweiniad defnyddwyr, banciau a chyfiawnder ieuenctid i enwi ond ychydig.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r "Gynghrair o Gynghreiriau" – sefydliadau'r sector gwirfoddol a gafodd eu dwyn ynghyd a'u cynorthwyo gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) – ynghylch y ffordd orau o sicrhau bod dinasyddion yn cymryd rhan yn uniongyrchol i rannu eu barn. Gweithiodd swyddogion gydag amrywiaeth eang o sefydliadau i helpu i ddod â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr at ei gilydd i gael eu barn uniongyrchol ar yr hyn oedd yn bwysig iddynt hwy a'r hyn yr oedd angen ei newid.

Yn ogystal ag ymgynghori ffurfiol, gan ddefnyddio fformatau amrywiol, rhoddodd swyddogion gyflwyniadau i grwpiau, cynhaliwyd trafodaethau, aethpwyd i gyfarfodydd un i un, anogwyd pobl i'w gwahodd i'w cyfarfodydd presennol, ac ysgrifennwyd erthyglau a'u rhoi i'n partneriaid i'w defnyddio yn eu rhwydweithiau. Gofynnwyd i randdeiliaid rannu gwybodaeth â'u rhwydweithiau a bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru a chynnig gweithio'n uniongyrchol gyda phobl.

Gofynnwyd i'r Panel Cenedlaethol Dinasyddion ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried yr ymgynghoriad fel unigolion o fewn eu rhwydweithiau eu hunain, ond hefyd gyda'i gilydd fel Panel, lle gwnaethant lunio adroddiadau i lywio'r ymgynghoriad ar integreiddio, diogelu, taliadau uniongyrchol a thalu am ofal.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws, gyda chymorth amhrisiadwy gan lawer o sefydliadau a ddaeth â phobl ynghyd i rannu eu barn. Roedd y rhain yn cynnwys CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Plant yng Nghymru, Voices from Care, a Bywydau Cymunedol ymhlith eraill. Siaradodd swyddogion am y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Codau Ymarfer mewn cyfarfodydd a digwyddiadau – er enghraifft gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, iechyd, carcharorion a'u teuluoedd, a thai.

Yn ogystal ag annog cysylltiadau allweddol i ledaenu'r dogfennau ymgynghori ymhlith eu rhwydweithiau, i gynorthwyo ymgysylltu ehangach cafodd fersiwn Hawdd ei Deall a fersiwn hwylus i blant a phobl ifanc eu llunio a'u lledaenu hefyd

Cafwyd cyfanswm o 103 o ymatebion. Atodir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A. Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru yn Adran 2.

## Cefndir

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith statudol newydd fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith statudol yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Mae'r ymgynghoriad ar y rheoliadau i'w gwneud o dan y Ddeddf a'u gosod yn cael ei gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'r gyfres gyntaf. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ym mis Ebrill 2016.

## Y dystiolaeth ar gyfer newid

Mae gwasanaethau cymdeithasol yn ganolog i fywyd cyhoeddus Cymru. Caiff 150,000 o bobl ifanc, pobl hŷn a phobl anabl gymorth ganddynt bob blwyddyn i gyflawni eu potensial ac i'w helpu i fod yn ddiogel. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gwasanaethau tai, iechyd ac addysg. Mae'r gymdeithas yn newid a rhaid i wasanaethau cymdeithasol newid mewn ymateb i hyn. Bu newid yn nisgwyliadau'r cyhoedd o wasanaethau cymdeithasol a bydd hyn yn parhau, o ganlyniad i newid demograffig a newidiadau yn ein cymdeithas. Mae angen i wasanaethau cymdeithasol addasu ac ymateb i bob un o'r rhain.

At hynny, mae'r galw yn cynyddu ar draws gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r rhagolwg ariannol ar gyfer yr holl wasanaethau cyhoeddus yn un anodd. Er ein bod wedi diogelu gwariant ar wasanaethau cymdeithasol, mae angen inni wneud newid mwy sylfaenol na dim ond mynd ar drywydd y mesurau effeithlonrwydd amlwg er mwyn inni sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy. Mae ein Papur Gwyn *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* yn nodi rhaglen o newid i ateb yr heriau hyn yn seiliedig ar y naw egwyddor ganlynol:

- Llais cadarn a rheolaeth go iawn
- Cefnogi ein gilydd
- Diogelwch
- Parch

- Adfer ac ailsefydlu
- Addasu i amgylchiadau newydd
- Sefydlogrwydd
- Symlrwydd
- Proffesiynoldeb

Mae'r rhain wedi eu llywio gan drafodaethau â rhanddeiliaid a dadleuon yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru ac mewn mannau eraill ers i *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru* gael ei gyhoeddi. Maent ochr yn ochr â thystiolaeth y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, adolygiad Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol i oedolion[a], a'n Hadolygiad o Ddiogelu[b]. Mae'r cyfan yn asgwrn cefn ein hachos dros newid.

Mae'r dystiolaeth hon, a'r broses o'i hystyried drwy broses graffu'r Cynulliad ar y Bil, wedi llywio a llunio cynnwys y Ddeddf. Mae'r cam nesaf, sef datblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer neu'r canllawiau statudol, wedi cael ei lywio gan gyfraniadau strategol allweddol fel *Mwy na Geiriau*, ein Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol[c], prosiect *Galluogi Cymru* sy'n cynorthwyo'n uniongyrchol y broses o gyflawni a gweithredu *Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol* Llywodraeth Cymru a chan dystiolaeth a gafwyd drwy grwpiau technegol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Mae'r grwpiau hyn wedi ystyried darpariaethau'r Ddeddf, a'r polisi sy'n sail i'r rhain, yn fanwl, a rhoi cyngor i swyddogion ar sut y dylai'r rheoliadau a'r codau ymarfer gael eu llunio er mwyn cyflawni nodau'r Ddeddf a, thrwy hyn, gyflawni gofynion *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu.* Defnyddiodd swyddogion Llywodraeth Cymru'r cyfraniad gwerthfawr hwn i ddatblygu'r rheoliadau drafft a'r cod ymarfer yr ymgynghorwyd arnynt.

## Y cynigion ar gyfer ymgynghori arnynt

### *Asesu*

Mae'r Ddeddf yn creu hawl i asesu ar gyfer pobl – oedolion, plant a gofalwyr – lle y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol y gall fod gan yr unigolyn anghenion ar gyfer gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwr).

Y nod yw symleiddio'r broses asesu fel ei bod yn gymesur ag anghenion yr unigolyn ac yn ystyried holl amgylchiadau'r person.

[a] http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/adult-social-care.htm
[b] http://gov.wales/topics/health/publications/socialcare/reports/advisory/?skip=1&lang=cy
[c] http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy

Mae'r fframwaith ar gyfer yr holl asesu, y syml a'r cymhleth, yn nodi isafswm set ddata genedlaethol wedi ei ddilyn gan ddadansoddiad o **5 ffactor cydberthynol** i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried holl amgylchiadau'r person tra'n sicrhau bod dyfnder y dadansoddiad yn gymesur â'i anghenion.

Efallai y bydd **asesiad syml** dim ond yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio templed lleol cyffredin, y gellir ei gynnal pan fydd person yn cael mynediad i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy. Bydd **asesiad mwy cymhleth** yn cynnwys yr asesiad syml ac asesiadau arbenigol ychwanegol i ffurfio asesiad integredig mwy cynhwysfawr. Ar ddiwedd yr holl asesiadau rhaid i'r person fod â dealltwriaeth glir o **ganlyniad** yr asesiad a'r hyn fydd yn digwydd nesaf.

Mae'r broses asesu yn hanfodol i'r system ehangach o ofal a chymorth ac mae'r prawf cymhwystra yn deillio'n naturiol o'r broses asesu.

***Cymhwystra***

Mae'r fframwaith cymhwystra a nodir o dan y Ddeddf yn creu hawl orfodadwy i'r unigolyn, lle y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried yr hyn y gellid ei wneud i ddiwallu anghenion, ac yna dyfarnu a oes unrhyw rai o'r anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ac felly y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu diwallu.

Drwy'r model newydd o ofal cymdeithasol bydd y model cymhwystra yn dileu'r trothwy traddodiadol ar gyfer mynediad at ofal a chymorth a reolir ac yn gosod model mwy ymatebol yn ei le a fydd yn ystyried ymateb unigol ar gyfer pob person.

Nid yw dyfarnu cymhwystra yn ymwneud â rhoi hawl i unrhyw un gwasanaeth; mae'n ymwneud â gwarantu mynediad i ofal a chymorth i fodloni canlyniadau llesiant. Yn y model newydd bydd awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag anghenion eu poblogaethau drwy ymyrryd ac atal yn gynnar wedi ei dargedu i leihau'r galw ar gymorth dwysach. Fodd bynnag, lle nad yw'r gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion gofal a chymorth y person bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei ddatblygu.

***Cynlluniau Gofal a Chymorth***

Bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei greu pan fydd asesiad yn nodi na ellir darparu gwasanaethau heb gynllun neu lle gellir darparu gwasanaeth heb gynllun ond mae angen cymorth parhaus ar yr unigolyn i gael mynediad at y gwasanaethau hyn.

**Rhaid** i gynllun gofal a chymorth nodi'r canlyniadau personol a nodi'r ffordd orau o helpu i'w cyflawni. Nid yw'n fwriad ceisio disodli trefniadau lleol ac arbenigol gofal presennol ar gyfer cynllunio gofal a chymorth, nac i'w gwneud yn ofynnol cael templed cenedlaethol unigol ar gyfer 'cynllun gofal a chymorth', er y bydd rhai gofynion sylfaenol am y cynnwys. Bydd cymhlethdod neu ddifrifoldeb angen yr unigolyn yn penderfynu cwmpas a manylion y cynllun gofal a chymorth a'r amrywiaeth o ymyriadau.

Lle y mae cynllun yn ei le ar gyfer yr unigolyn sy'n bodloni gofynion cynllun gofal a chymorth gellir ystyried ei fod yn bodloni dyletswydd yr awdurdod lleol.

Lle y mae'r cynllun gofal a chymorth yn cynnwys ymweliadau â chartref y person at ddibenion darparu gofal a chymorth, **rhaid** i'r ymweliadau hynny fod yn ddigon hir i sicrhau bod y gofal a'r cymorth yn cael ei ddarparu'n briodol.

***Taliadau uniongyrchol***

Mae taliadau uniongyrchol yn symiau ariannol a ddarperir gan awdurdodau lleol i unigolion, neu eu cynrychiolwyr, i'w galluogi i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth cymwys. Mae taliadau uniongyrchol yn grymuso pobl i gael dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu, sy'n ategu eu dulliau cymorth presennol i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol.

Mae taliadau uniongyrchol yn cymryd lle gofal a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol, neu a gomisiynir gan awdurdod lleol. Gallant fod ar gyfer holl anghenion gofal a chymorth person, neu ar gyfer rhan o anghenion gofal a chymorth person. Yn yr achos olaf bydd gweddill eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu mewn ffordd arall.

Bydd ein cynigion yn gweld parhad o daliadau uniongyrchol fel ffordd o gyflawni canlyniadau llesiant pobl ond mewn ffordd sy'n gwella eu gallu i ddyfarnu pa ofal a chymorth sy'n gywir iddynt hwy, yn eu barn hwy. Hefyd, bydd ein cynigion yn sicrhau estyn y taliadau uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer mathau eraill o ofal a chymorth (er enghraifft ar gyfer gofal preswyl hirdymor) ac i unigolion sydd ar hyn o bryd wedi eu heithrio rhag cael taliadau uniongyrchol (er enghraifft y rhai sydd â phroblemau cyffuriau neu alcohol).

## Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori fel rhan o'r broses ymgynghori. Y diben oedd:

- Hyrwyddo ymgysylltu â'r ymgynghoriad
- Darparu lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r meysydd roeddem yn ymgynghori arnynt i grwpiau o randdeiliaid allweddol.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn bresennol i gymryd rhan mewn trafodaethau ar weithredu'r rheoliadau, a hefyd i rannu gwybodaeth o'r digwyddiadau â'u rhwydweithiau ehangach i ysgogi ymgysylltu dyfnach â'r cynigion a rhychwant ehangach o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 26 Tachwedd yn Stadiwm Liberty, Abertawe  Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad ar 9 Rhagfyr yn Venue Cymru, Llandudno.

Ar y cyfan, cafwyd ymateb cadarnhaol o ran y nifer a fanteisiodd ar y lleoedd ar gyfer y digwyddiadau, gan gyrraedd y capasiti yn y ddau ddigwyddiad. Roedd tua 170 yn bresennol yn y digwyddiad yn ne Cymru a 90 yn bresennol yng ngogledd Cymru.  Roedd yr amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys cynrychiolaeth gan:

- AGGCC
- Anabledd Cymru
- Anabledd Dysgu Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru
- Byrddau Iechyd Lleol
- Cartrefi Cymru
- CEM Abertawe
- CLILC
- Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU
- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
- Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion
- Cynghrair Henoed Cymru
- Cyngor Gofal Cymru
- Estyn Llaw
- Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaeth Gwarchodol a Chadw G4S
- Hafal
- Headway
- Heddlu De Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- NOMS Cymru
- Plant yng Nghymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- RNIB Cymru
- Sefydliad Rowan
- Shine Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
- Y Bwrdd Cynghori ar Ddiogelu
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Cymru

- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru

Cynhaliwyd gweithdai yn y digwyddiadau ar bob rhan yr ymgynghorir arni. Roedd cynnwys y gweithdai yn amrywiol ac wedi ei deilwra i gyd-fynd â'r testun, ond wrth wraidd pob un roedd cyflwyniad gan swyddogion a thrafodaethau a gweithgareddau grŵp.

## Adran 2

## Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

## Cwestiwn 1:

| | **1. I ba raddau rydych yn cytuno bod y dull o ran cymhwystra, asesu a chynllunio gofal yn glir ac yn syml i'w gymhwyso?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 8 | 35 | 15 | 9 | 22 |

**Crynodeb**

Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r dull o ran cymhwystra, asesu a chynllunio gofal gyda chytundeb cyffredinol ei fod yn glir ac yn syml i'w gymhwyso. Roedd cefnogaeth gref ar gyfer y datganiad hwn gan wasanaethau statudol a sefydliadau gwirfoddol. Fodd bynnag, yn y sylwadau manylach codwyd materion penodol a fynegodd rai o'r meysydd o bryder gan ymatebwyr.
Er bod cefnogaeth i'r dull cyffredinol o gymhwystra, roedd yr ymatebwyr am gael mwy o eglurder o ran y 'Prawf Gallu a Gallu yn Unig' a chanllawiau pellach i sicrhau y bydd y prawf yn cael ei gymhwyso'n gyson.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod bod y dull yn gofyn am newid system gyfan ar gyfer y sector ac y bydd llwyddiant y dull yn dibynnu ar newid diwylliant sylweddol.

Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a grwpiau fel Age Cymru a Chymdeithas Alzheimer's yn glir eu bod am weld cyfeiriad cryfach at eiriolaeth yn y broses asesu. Cafodd hyn ei adlewyrchu hefyd mewn ymatebion i ymgyngoriadau ar rannau eraill o'r Ddeddf.

Rhoddodd y grwpiau a oedd yn cynrychioli anabledd sylwadau ar y derminoleg a ddefnyddir yn y Codau, gan geisio cyfeiriad mwy amlwg at y model cymdeithasol o anabledd a chyfeirio'n benodol at Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru.

Roedd yn amlwg nad oedd llawer o ymatebwyr yn glir ynghylch statws gofalwyr anffurfiol ac effaith y gofal maent yn ei ddarparu ar ddyfarnu cymhwystra. Mae hyn yn ymwneud â'r testun yn y rheoliadau a'r cod. Pwysleisiodd grwpiau gofalwyr bwysigrwydd cymorth ymatebol i fodloni gallu cyfnewidiol gofalwyr i ddiwallu anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt ac roeddent yn pryderu y bydd tuedd i gymryd yn ganiataol bod gofalwyr yn gallu diwallu anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r gefnogaeth ar gyfer y dull yn yr ymatebion yn dangos manteision gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad. Mae'r sylwadau'n arbennig o ddefnyddiol o ran galluogi Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r rheoliadau a'r codau ymarfer i gynnig eglurhad pellach mewn rhai meysydd allweddol.

I sicrhau bod mwy o gysondeb ledled Cymru bydd y cod ar Ran 3 yn cael ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol cymhwyso templed cenedlaethol ym mhob awdurdod lleol yn ystod y broses asesu. Cynigir hefyd lle bydd awdurdod lleol, drwy asesiad, yn penderfynu na fydd angen yn cael ei ddiwallu gan gynllun gofal a chymorth bydd gofyniad i awdurdodau lleol nodi yn y cofnod asesu sut y maent yn credu bydd y cam gweithredu arfaethedig yn helpu rhywun i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol. Bydd hyn yn rhoi datganiad i ddinasyddion ar gyfer seilio unrhyw anghytundeb arno o ran y ffordd orau y gellir eu cynorthwyo i ddiwallu eu canlyniadau personol a llesiant a nodwyd.

Yn ogystal, bydd y cod ymarfer ar Ran 4 yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod mwy o eglurder o ran sut y bydd y dull cymhwystra yn gweithio yn ymarferol. Bydd hyn yn cynnwys nodi'r broses ar gyfer gwneud y penderfyniad cymhwystra drwy asesu anghenion a'r sefyllfaoedd lle mae cymhwystra yn cael ei sefydlu'n gynhenid gan statws yr amgylchiadau a gyflwynir gan y person – fel bod yn blentyn sy'n derbyn gofal neu rywun sydd mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cyngor Gofal Cymru, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol. Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gennym strategaeth sy'n cwmpasu pawb sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol, ynghyd â'u partneriaid allweddol, a'i bod yn cael ei chyflawni ar y cyd â'r partneriaid hynny ac mewn cydweithrediad â hwy. Bydd hyn hefyd yn mynd i'r afael â rhai pryderon am anghysondeb a'r newid diwylliant sy'n ofynnol i alluogi llwyddiant y system newydd.

Yn dilyn datblygu dull cenedlaethol eiriolaeth o dan Ran 10 o'r Ddeddf bydd y cyfeiriadau at eiriolaeth yn cael eu cryfhau drwy gydol y codau.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gellir diwygio'r derminoleg yn y cod ymhellach er mwyn bod yn gyson â'r model cymdeithasol o anabledd a gwneir cyfeiriad uniongyrchol at Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chynrychiolwyr rhanddeiliaid (gan gynnwys Gofalwyr Cymru) i fireinio'r geiriad yn y cod ymarfer ar gyfer Rhan 3: *Asesu Anghenion Unigolion*. Bydd hyn yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod, drwy'r asesiad, nodi'r anghenion hynny a fyddai'n cael eu hystyried yn gymwys os nad oedd gofalwr yn diwallu'r anghenion hynny. Mae hyn er mwyn i'r awdurdod lleol allu ymateb yn briodol ac yn gyflym pan na fydd y gofalwr na theulu'r plentyn yn gallu diwallu rhywfaint neu'r cyfan o'r anghenion

| |
|---|
| gofal a chymorth a nodwyd, neu'n amharod i wneud hynny. Bydd y dull hwn yn darparu'r grym statudol angenrheidiol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymateb i sefyllfaoedd lle nad yw'r gofalwr yn gallu parhau i ddarparu gofal. Bydd y pwynt lle bydd gofalwr yn methu parhau i ddiwallu angen gofal neu'n amharod i wneud hynny, neu'n hysbysu'r awdurdod lleol bod hyn ar fin digwydd, yn cyfateb i <u>newid sylweddol mewn amgylchiadau</u> ar gyfer y person sy'n derbyn gofal. O ganlyniad rhaid i'r awdurdod lleol ailasesu angen y person am ofal a chymorth. |

## Cwestiwn 2:

| | **2. I ba raddau rydych yn cytuno bod telerau a diffiniadau'r Pum Elfen Asesu a nodir yn yr Atodiad i'r cod yn Rhan 3 (asesu) yn glir?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytuno** | **Tueddu i gytuno** | **Tueddu i anghytuno** | **Anghytuno** | **Heb roi tic** |
| **Cyfanswm -** | **17** | **37** | **6** | **5** | **22** |

**Crynodeb**

Yn gyffredinol roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod telerau a diffiniadau'r pum elfen yn glir. Nododd partneriaid statudol yn arbennig eu bod o'r farn bod y telerau a'r diffiniadau yn glir. Nododd pump o'r chwe Bwrdd Iechyd a ymatebodd eu bod yn teimlo bod y telerau a'r diffiniadau yn glir. Nid oedd unrhyw awdurdod lleol yn anghytuno â'r datganiad, a dim ond un asiantaeth wirfoddol oedd yn anghytuno â'r datganiad. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr eisiau canllawiau pellach ar asesu a chymhwyso'r pum elfen.

Nododd Rhwydwaith Rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Anabl Gogledd Cymru fod y pum elfen yn glir a'u bod yn croesawu'r ffaith eu bod yn ymgorffori model yn seiliedig ar gryfderau yn hytrach na model diffyg.

Nododd awdurdod lleol hefyd fod: Diffiniadau'r pum elfen allweddol i'w hystyried wrth gynnal asesiadau yn darparu fframwaith clir a dull cyson ledled Cymru.

Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol unigol y gallai'r atodiad sy'n nodi'r telerau a'r diffiniadau gael ei ddefnyddio fel un o'r dulliau ar gyfer hyfforddi a datblygu staff.

Gofynnwyd am eglurhad penodol ar yr elfen yn ymwneud â chryfderau a galluoedd. Roedd Mind Cymru, Cynghrair Ailalluogi Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol Cymru am gael cyfeiriad at ailalluogi yn yr elfen cryfderau a galluoedd.

Ceisiodd Gwasanaethau Plant eglurder ynghylch y berthynas rhwng pum elfen allweddol yr Asesiad a'r tri pharth ymholi a ddefnyddiwyd yn y

Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd y cod ymarfer yn cael ei fireinio i gynnwys rhagor o fanylion am y broses asesu a chymhwyso'r pum elfen asesu.

Yn lle'r cyfeiriad at adnoddau personol yn y codau bydd cyfeiriad at Gryfderau a Galluoedd – gyda diffiniad cysylltiedig o'r derminoleg hon. Yn ogystal, bydd cyfeiriad at ailalluogi yn y cod ar ran 4: diwallu anghenion. Bydd y cod ymarfer yn egluro sut y gall y rhaglen asesu a chymhwystra wedi ei symleiddio gynorthwyo mynediad i raglen ailalluogi a phenderfyniadau ar ôl cwblhau'r rhaglen ailalluogi pan fydd dyfarniad yn cael ei wneud o ran a yw'n debygol y bydd angen gofal a chymorth parhaus ar yr unigolyn.

Drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn integreiddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd â'r Cod Ymarfer ar gyfer Asesu Anghenion Unigolion.

## Cwestiwn 3:

| | **3. I ba raddau rydych yn cytuno bod y model asesu yn galluogi dull integredig gyda darparwyr gwasanaethau eraill yn rhoi cymorth h.y. gwasanaethau iechyd, plant a theuluoedd, tai, iechyd meddwl?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 2 | 44 | 17 | 9 | 24 |

**Crynodeb**

Roedd yr ymatebion yn gefnogol iawn o ddull mwy cymesur o asesu sy'n llai biwrocrataidd ac sy'n galluogi mwy o hyblygrwydd wrth weithio gyda darparwyr gwasanaethau eraill. Fodd bynnag, nid ystyriwyd bod rhannu'r broses asesu yn ddau gategori (a ddynodir yn 'syml' a 'chymhleth') yn adlewyrchu'r cymesuredd dull a ddymunir.

Roedd cefnogaeth glir ar gyfer y model asesu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen cael newid diwylliant i ysgogi arfer integredig.

Awgrymodd yr ymatebion y byddai'r codau ymarfer yn cael budd o archwiliad pellach i sicrhau eu bod yn gyson â dulliau profedig a sefydledig o asesu fel y rhai a gynhelir drwy Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.

Cafwyd galwad i bartneriaid statudol weithio mewn dull o gydgynhyrchu â'i gilydd, yn enwedig Tai, Iechyd, ac Addysg.

Roedd Gofalwyr Cymru, gan gefnogi'r farn y bydd y model yn galluogi dull integredig, yn glir na ddylai atebion posibl ymwneud â pha wasanaethau presennol sydd ar gael mewn unrhyw ardal benodol yn unig. Nodwyd y dylid annog ymarferwyr i ystyried atebion eraill nad ydynt o bosibl yn rhan o unrhyw un gwasanaeth penodol. Felly yn hytrach na cheisio sicrhau bod pobl yn cyd-fynd â gwasanaeth sydd eisoes yn bodoli, dylid datblygu'r gwasanaeth i gyd-fynd â nhw.

Awgrymodd rhai awdurdodau lleol y dylai templed cyffredin gael ei ddefnyddio ar gyfer y broses asesu.

Roedd rhai'n teimlo y dylai'r data craidd cyffredin ymwneud yn uniongyrchol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) drwy'r defnydd o'r fframwaith 7 Nod Craidd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd yr ymatebion yn llywio datblygu'r cod ymarfer o dan ran 9: Cydweithrediad a Phartneriaeth

Fodd bynnag, ar feysydd penodol yn ymwneud â Rhannau 3 a 4 mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda chynrychiolwyr y sector Iechyd Meddwl i fireinio'r Cod Ymarfer i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â phroses asesu darparwyr gwasanaethau allweddol eraill a llywio'r adolygiad parhaus o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 o ran y broses asesu. Yn ogystal, mae'r rheoliadau wedi cael eu diweddaru i gynnig eglurhad pellach am y broses ar gyfer cynnal asesiadau arbenigol.

Drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r cod ymarfer i adlewyrchu'r ffaith y bydd y tri pharth o'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn cael eu hymgorffori yn y cod ymarfer fel y meysydd ymholi, ac y bydd y pum elfen yn cael eu defnyddio fel y model ar gyfer dadansoddi'r wybodaeth honno.

Bydd y cod ymarfer yn cael ei gryfhau i ganolbwyntio mwy ar gontinwwm y broses asesu. Bydd asesiadau awdurdodau lleol yn gymesur ag anghenion yr unigolyn a bydd rhannu'r broses asesu yn 'syml' a 'chymhleth' yn cael ei ddileu yn sgîl ymatebion i'r ymgynghoriad. Yn dilyn ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau plant statudol a gwirfoddol, bydd model asesu wedi ei symleiddio a chyson yn cymryd ei le.

Mae templed cyffredin yn cael ei ddatblygu i'w ddefnyddio ar sail Cymru gyfan a fydd yn darparu dull cyson a mwy o barhad gofal rhwng awdurdodau lleol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau. Bydd y defnydd o dempled cyffredin gan bob awdurdod lleol yn helpu gyda hygludedd asesiadau.

| |
|---|
| Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i awdurdodau lleol yn unig ond mae'r cod ymarfer ar ran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio'n agos gyda'u hasiantaethau sy'n bartneriaid o ran asesu ac mae'n darparu'r fframwaith er mwyn i hyn ddigwydd. |

## Cwestiwn 4:

| | **4. I ba raddau rydych yn cytuno bod y prawf cymhwystra a nodir mewn rheoliadau ac yn y cod ymarfer ar Ran 4 (diwallu anghenion) yn cynorthwyo darparu cyson ledled Cymru i sicrhau trothwy cenedlaethol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 4 | 30 | 21 | 10 | 22 |

**Crynodeb**

Roedd yr ymatebion o blaid cytuno y byddai'r model yn sicrhau trothwy cenedlaethol. Fodd bynnag, dangosodd yr ymatebion angen am fwy o eglurder a manylion ynglŷn â'r prawf cymhwystra.

Roedd yr ymatebion o blaid dull sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am sut y byddai'n cael ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru am ei fod yn agored i ddehongliad ac mae gwahanol wasanaethau ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru.

Cafwyd sylwadau gan sawl grŵp am derminoleg anghyson a dryslyd yn ymwneud â chanlyniadau llesiant personol a nodir yn y Ddeddf, y Rheoliadau a'r Cod.

Roedd pryder y bydd unigolion dim ond yn gymwys am ofal a chymorth pan fyddant wedi defnyddio pob mesur arall ac y bydd diffyg gwasanaethau ataliol yn gwthio pobl i sefyllfa lle bydd angen cynlluniau gofal a chymorth arnynt.

Mae angen eglurhad mewn perthynas ag adnoddau personol oedolion, gan gynnwys eu gallu i reoli eu canlyniadau llesiant eu hunain ac a yw cymorth anffurfiol a ddarperir gan y teulu neu eraill yn cael ei ystyried yn ystod y prawf.

Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu y gallai'r ‘Prawf Gallu a Gallu yn Unig’ gael ei ddehongli mewn gwahanol ffyrdd a bod angen eglurhad pellach. Roedd hyn yn cynnwys pryderu am sut y byddai pobl yn cael eu grymuso i herio asesiadau yn seiliedig ar ddyfarniadau proffesiynol gan ddadlau y dylai'r pwyslais fod ar yr awdurdod lleol i roi tystiolaeth pam nad oes angen cynllun gofal a chymorth yn hytrach na'r angen i'r unigolyn roi tystiolaeth ynghylch pam mae cynllun gofal a chymorth yn angenrheidiol.

Mynegwyd y farn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad y dylid ehangu'r

cyfeiriadau yn y Rheoliadau at bobl nad ydynt yn gallu gwneud gweithgareddau bywyd bob dydd a hunanofal drwy ddealltwriaeth y dylai pobl allu gwneud tasgau o'r fath heb boen, gofid, na phryder ac na ddylai gwneud tasgau o'r fath beryglu iechyd yr unigolyn nac eraill, na chymryd yn sylweddol hwy na'r hyn fyddai'n ddisgwyliedig gan rywun na fyddai ag anghenion sy'n codi fel y nodir yn rheoliad 3.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu mwy o eglurder o ran y dull cymhwystra drwy fireinio'r rheoliadau a'r codau ymarfer ond ni fyddwn yn cynnig unrhyw newidiadau sylfaenol i'n dull.

Rydym yn hyderus y gall y prawf cymhwystra – y prawf gallu a gallu yn unig - gael ei gymhwyso'n gyson i bawb. Fodd bynnag, yn gywir ddigon, bydd yr ymateb i bob unigolyn yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull o ganolbwyntio ar y dinesydd a nodir yn y Ddeddf.

Mae'r dull o benderfynu cymhwystra yn ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n cysylltu'n agos â'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Y man cychwyn yw ystyr "llesiant" fel y nodir yn Rhan 2 o'r Ddeddf a rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a fydd darparu gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwr, yn cynorthwyo'r person i fodloni ei ganlyniadau personol o fewn y fframwaith llesiant hwnnw.

Mae'r model hwn o ddyfarnu cymhwystra drwy asesu yn sicrhau fframwaith cymhwysedd cenedlaethol a fydd yn cael ei gymhwyso'n gyson ledled Cymru. Er y bydd y patrwm o ddarparu gwasanaethau yn amrywio o un awdurdod i'r llall; yr hyn sy'n aros yn gyson yw'r hawl i gael gofal a chymorth gan awdurdod lleol lle nad yw'r gofal a'r cymorth hwnnw ar gael fel arall i'r unigolyn ag anghenion sy'n ymwneud â'r canlyniadau penodol.

Bydd y codau ar Ran 3 Asesu a Rhan 4 Diwallu Anghenion yn cael eu diwygio i egluro **na fydd** yn ofynnol i unigolion ddefnyddio pob mesur arall er mwyn bod yn gymwys i gael gofal a chymorth. Un o swyddogaethau'r broses asesu yw nodi a all atebion heblaw am ofal a chymorth alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol yn ddiogel ac i ba raddau y gellid gwneud hyn.

Mae'r cod ymarfer ar asesu yn cael ei gryfhau i'w gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i'r cofnod Asesu, ym mhob achos, gynnwys esboniad o sut y bydd y cam gweithredu a argymhellwyd yn helpu i fodloni'r canlyniad a nodwyd neu fel arall yn diwallu anghenion a nodwyd gan yr asesiad. Mae hyn yn berthnasol nid dim ond i'r anghenion hynny sydd i'w diwallu drwy ddarparu gofal a chymorth ond hefyd yr anghenion sy'n cael eu diwallu drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol, darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, neu drwy unrhyw fodd arall.

Mae'r cod yn cael ei ddiwygio i egluro'r broses o ystyried y cymorth a geir gan eraill fel rhan o ddyfarnu cymhwystra. Bydd y dull newydd yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gydnabod a chofnodi'r cyfraniad mae gofalwyr yn ei wneud at yr hyn a fyddai fel arall yn cael eu dyfarnu fel anghenion cymwys.

Cafwyd sylwadau gan sawl grŵp am derminoleg anghyson a dryslyd wrth gyfeirio at ganlyniadau a nodir yn y Ddeddf, y rheoliadau a'r Cod. Eir i'r afael â hyn drwy ddiwygio'r Rheoliadau a'r Codau i sefydlu cysondeb o ran y defnydd o'r term 'canlyniadau llesiant personol'. At ddibenion dyfarnu cymhwystra, ychwanegwyd rheoliad i nodi y dylid ystyried bod person sy'n gallu diwallu'r angen, ar ei ben ei hun neu â chymorth eraill fel un nad yw'n gallu diwallu'r angen os bydd gwneud hynny yn—

(a) achosi poen, pryder neu ofid sylweddol i'r person hwnnw;
(b) peryglu neu'n debygol o beryglu iechyd neu ddiogelwch y person hwnnw neu berson arall;
(c) cymryd yn sylweddol hwy i'r person hwnnw na'r hyn a ddisgwylir fel arfer.

## Cwestiwn 5:

| | 5. I ba raddau rydych yn cytuno y dylai rolau cydlynwyr asesu a chydlynwyr gofal gael eu neilltuo ar gyfer ymarferwyr a bennwyd? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 21 | 27 | 8 | 3 | 28 |

**Crynodeb**

Roedd cefnogaeth ar gyfer neilltuo rôl cydlynwyr er bod y sylwadau gan ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod gan aseswyr y lefel briodol o hyfforddiant yn hytrach nag awgrymu pa rolau y dylid eu neilltuo. Cafwyd galwadau am ganllawiau pellach ar rôl y cydlynwyr a gwnaed cyfeiriad penodol at bwysigrwydd sicrhau bod yr aseswr yn fedrus o ran asesu anghenion penodol y person sy'n cael ei asesu. Rôl allweddol i'r cydlynydd oedd sicrhau bod y sgiliau hyn ar gael i'r person y mae ei anghenion yn cael eu hasesu.

Mae Awdurdodau Lleol yn gefnogol i'r model ond maent yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant staff i alluogi gweithredu'r dull newydd yn gyson.

Mae grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nam ar eu synhwyrau ac anableddau eraill yn cynghori y dylid cael cyfeiriad penodol at gydnabod anghenion cyfathrebu fel rhwystr yn y broses asesu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gymwys i ymgymryd â rolau priodol. Ar sail yr ymateb i'r cwestiwn o neilltuo rolau ar gyfer ymarferwyr a bennwyd byddwn yn cynnal trafodaethau â grwpiau proffesiynol perthnasol i sicrhau bod amrywiaeth priodol o ymarferwyr yn ymwneud ag asesiadau cymesur ac yn gallu eu cynnal. Fodd bynnag, nid ymdrinnir â hyn drwy'r rheoliadau hyn ac ni fyddant yn rhan uniongyrchol o'r codau ymarfer oherwydd bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio'r strategaeth ehangach ar gyfer y gweithlu.

Bydd y rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn cael eu cryfhau i sicrhau bod arbenigwyr yn rhan o asesiadau lle y bo'n angenrheidiol – naill ai mewn rhinwedd ymgynghorol, neu drwy gynnal yr asesiad yn uniongyrchol.

Bydd y cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i egluro rôl y cydlynydd sy'n ofynnol ar gyfer y dyletswyddau hyn. Bydd swyddogion wedi hynny yn cael trafodaeth â Chyngor Gofal, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, ar anghenion hyfforddi staff sy'n ymgymryd â'r rôl hon.

Bydd canllawiau statudol 2001 ar *Ofal Cymdeithasol i blant ac oedolion byddar a dall* yn cael eu hintegreiddio i'r codau ymarfer. Mae hyn wedi cael ei ddatblygu gan ymgynghori'n agos â Sense Cymru.

Nodir anghenion cyfathrebu yn y rheoliadau ar gymhwystra fel angen a all ei gwneud yn ofynnol darparu gofal a chymorth. Ar ôl yr ymgynghoriad mae'r dull arfaethedig ar gyfer eiriolaeth a gofyniad i awdurdodau lleol gynnwys arbenigwyr yn cael eu cryfhau i greu dulliau o sicrhau bod pobl ag anghenion cyfathrebu yn gallu cyfrannu fel partneriaid llawn i'r broses asesu

## Cwestiwn 6:

| | **6. I ba raddau rydych yn cytuno bod y rheoliadau a'r codau ymarfer ar Rannau 3 a 4 yn darparu fframwaith ar gyfer diwallu anghenion plant?** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 6 | 28 | 9 | 1 | 43 |

**Crynodeb**

Roedd yr ymatebwyr yn amlwg yn cytuno bod y rheoliadau a'r codau ymarfer yn darparu fframwaith ar gyfer diwallu anghenion plant ond cafwyd cefnogaeth gref hefyd ar gyfer ailadrodd y Fframwaith presennol ar gyfer

Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd yn y Cod Ymarfer.

Galwodd y Comisiynydd Plant a Sefydliadau Gwirfoddol Plant am ganllawiau penodol i oedran manwl yn unol â Deddf Plant 1989 ac roeddent yn pryderu nad yw'r broses asesu a dyfarnu cymhwystra yn briodol i blant heb y manylion hyn. Galwodd y Comisiynydd Plant am reoliadau ar wahân i blant.

Nid oedd yr ymatebwyr yn glir ynghylch y trefniadau pontio, o blentyn i oedolyn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo dull system gyfan gyda threfniadau yn eu lle i ddiwallu anghenion pawb. Mae'r Ddeddf yn adlewyrchu'r dyletswyddau yn Neddf Plant 1989. Mae'n cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer plant yng Nghymru drwy nodi'r broses ar gyfer asesu plant mewn rheoliadau, a hynny am y tro cyntaf.

Oherwydd bod y Ddeddf yn Ddeddf i bawb, y bwriad yw y bydd llai o ffin o ran pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn. Serch hynny, bydd y cod diwygiedig ar asesu yn mynd i'r afael â'r pwynt a godwyd am eglurhad pellach ar bontio a bydd yn nodi bod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn newid sylweddol mewn amgylchiadau ac felly'n creu hawl i ailasesu anghenion.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr alwad i'r cod ymarfer gael ei ddiwygio i adlewyrchu ac integreiddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. I lywio'r gwaith hwn mae grŵp gorchwyl a gorffen bach wedi cael ei ffurfio ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau statudol a gwirfoddol ynghyd â rheoleiddwyr a swyddogion Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i'r gwaith hwn bydd y cod ymarfer ar asesu yn cynnwys adran benodol ar ystyriaethau yn ystod yr asesiad o blentyn. Bydd hyn yn cynnwys integreiddio'r egwyddorion allweddol a nodwyd yn y Fframwaith ac amserlenni ar gyfer cwblhau asesiad.

Mae'r rheoliadau wedi eu strwythuro er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiannau sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion plant, oedolion a gofalwyr, o fewn fframwaith rheoleiddio cyson. Ystyrir bod y codau ymarfer yn ddigon eang i ddiwallu anghenion pawb ond byddant yn darparu canllawiau penodol o ran plant a phobl ifanc lle y bo angen.

## Cwestiwn 7:

| | 7. I ba raddau rydych yn cytuno bod y cod a'r rheoliadau yn Rhan 4 yn galluogi mwy o bobl i gael mwy o reolaeth dros eu gofal a'u cymorth drwy daliadau uniongyrchol? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |

| Cyfanswm - | 11 | 39 | 5 | 3 | 29 |
|---|---|---|---|---|---|

**Crynodeb**

Croesawodd yr ymatebwyr y newidiadau a gynigiwyd gan y ddeddfwriaeth a'r cod o ran estyn taliadau uniongyrchol. Cytunwyd y dylai taliadau uniongyrchol gael eu gweld fel rhan annatod yn y fframwaith ehangach o gymhwystra, asesu, a chynllunio cymorth ac nid fel endid ar wahân.

Croesawyd y ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gydag argaeledd eiriolwyr i helpu pobl i wneud penderfyniad hyddysg. Cydnabuwyd bod angen sicrhau bod gwasanaethau cymorth effeithiol ar gael i helpu pobl i reoli'r gwasanaethau maent yn eu caffael ac awgrymwyd cael canolfan gyngor, siop un stop lle gallai pobl gael yr un lefel o wybodaeth a chymorth i ddileu amrywiadau o ran ansawdd y gwasanaethau gwybodaeth a ddarperir.

Mae angen hyfforddiant a datblygu'r gweithlu parhaus i sicrhau bod ymarferwyr yn hyblyg, yn greadigol ac yn arloesol a'u bod yn fodlon gwthio'r ffiniau i alluogi'r canlyniadau gorau i unigolion.

Roedd yr ymatebwyr yn awyddus i weld mesurau diogelwch priodol a llym yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu'r mwyaf agored i niwed, yn enwedig yn sgîl estyn taliadau uniongyrchol i'r rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol. Roedd ymrwymiad cryf ar gyfer cydgynhyrchu a mentrau cydweithredol i helpu derbynwyr i gael y canlyniadau gorau.

Lleisiwyd siom bod y Ddeddf yn methu darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer taliad uniongyrchol mewn gofal iechyd parhaus. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei hannog i ailystyried ei safbwynt cyn gynted â phosibl i sicrhau bod gan ddinasyddion Cymru gydraddoldeb â derbynwyr taliadau uniongyrchol yn Lloegr.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r cod ar Ran 4 yn cryfhau'r ymrwymiad bod taliadau uniongyrchol yn rhan annatod o gynllunio gofal ac mae'r cod a'r rheoliadau, gyda'i gilydd, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chymorth i wneud penderfyniad hyddysg. Mae amodau a mesurau diogelu wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau a'r cod i amddiffyn y rhai agored i niwed. Mae'r rhain wedi eu trafod mewn perthynas â chwestiwn 8 isod.

Mae hyfforddi a chyfathrebu yn agweddau allweddol ar y gwaith y bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, yn ei gefnogi dros y cyfnod pontio ac mae Cyngor Gofal Cymru, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, wedi cael ei gomisiynu i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol. Mae'r strategaeth yn cynnwys cynllun defnyddio hyfforddiant a chanolfan wybodaeth siop un stop.

## Cwestiwn 8:

| | 8. I ba raddau rydych yn cytuno bod y cod a'r rheoliadau ar Ran 4 yn hybu amgylchedd lle gall pobl gyflogi perthnasau agos i reoli neu ddarparu eu gofal a'u cymorth? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 11 | 25 | 14 | 2 | 36 |

**Crynodeb**

Roedd cryn ddiddordeb yn y cwestiwn ymgynghori ar ganiatáu defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi perthnasau i reoli neu ddarparu eu gofal a'u cymorth. Roedd ychydig o bryder y byddai'r opsiwn polisi hwn yn achosi problemau gweithredu i awdurdodau lleol yn enwedig o ran y problemau diogelu a phryder ehangach ynghylch monitro tra'n parhau'n gymesur.

Ystyriwyd bod camau diogelu priodol ac argaeledd eiriolwyr annibynnol yn hanfodol i sicrhau diogelwch yr unigolyn ac i sicrhau bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu hamddiffyn wrth wneud penderfyniadau.

Roedd ychydig bach o bryder y byddai'r disgresiwn hwn yn troi'r fantol o ran bondiau teulu sy'n gysylltiedig â gofalu. Bydd angen i awdurdodau lleol drafod â'r derbynnydd y posibilrwydd y gall trefniadau o'r fath newid dynameg teulu ac egluro wrth y derbynnydd a'i berthynas y gwahaniaeth rhwng cael swm nominal ar gyfer darparu cymorth gweinyddol a rheoli'r taliad uniongyrchol, a'r perthnasau hynny yn yr un cartref sy'n cael eu talu am ofal.

Er ei fod yn cael ei groesawu gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr teimlwyd bod angen eglurder o ran materion rheoli gweithlu heb ei reoleiddio. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai angen i aelodau o'r teulu gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ymgymryd â'r dasg ond hefyd eu hasesu fel Gofalwyr y gall fod angen cymorth arnynt.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am fwy o eglurder ynghylch sut y dylai'r Awdurdod Lleol benderfynu a yw cyflogi perthynas sy'n byw yn yr un cartref yn briodol.

Roedd ymatebwyr yn teimlo nad oedd y rheoliad yn ymwneud â chyflogi perthynas (rheoliad 6) fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol yn bodloni'r bwriad polisi ac y byddai'n annog perthnasau i beidio â chyfranogi. Roedd canfyddiad bod y rheoliad yn rhoi gormod o le i ddisgresiwn yr awdurdod lleol ac nad oedd yn cydymffurfio ag ethos y Ddeddf o gydgynhyrchu, dewis a rheolaeth. Galwodd yr ymatebwyr i'r rheoliad ailgadarnhau gwerth posibl cyflogi perthnasau a dileu arwyddocâd negyddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae amodau a mesurau diogelu wedi cael eu cynnwys yn y rheoliadau a'r cod sy’n nodi y gall yr awdurdod lleol awdurdodi'r defnydd o daliadau uniongyrchol i dalu perthynas os yw, ar ôl ystyried barn y derbynnydd, o'r farn bod hyn yn angenrheidiol i hyrwyddo eu llesiant.

Bydd y paragraff yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol fel cyflogwr (rhan 4 o'r cod) yn cael ei ddiwygio i ddarparu manylion penodol wrth ystyried cyflogi perthynas.

Mae adolygiadau a monitro yn darparu dull ar gyfer rheoleiddio sut y mae gofalwyr sy'n berthnasau yn cyflawni eu hamcanion. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â monitro ac adolygu yn cael eu cryfhau yn y cod i nodi sut y mae taliadau'n cael eu defnyddio i fodloni canlyniadau llesiant y person.

Mae rheoliad 6 wedi cael ei ddiwygio i egluro bod barn y derbynnydd yn ffactor sylweddol i'w gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Teimlwn fod cryfhau'r pŵer rheoleiddio yn y modd hwn yn cyflawni'r cydbwysedd cywir wrth fynd i'r afael â'r pryderon a gafwyd.

## Cwestiwn 9:

| | 9. I ba raddau rydych yn cytuno bod y Cod a gyhoeddwyd ar gyfer Rhan 3 a 4 yn cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl yn bartneriaid llawn yn y broses o ddylunio a darparu gofal a chymorth? | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno | Tueddu i gytuno | Tueddu i anghytuno | Anghytuno | Heb roi tic |
| **Cyfanswm -** | 8 | 37 | 10 | 4 | 28 |

**Crynodeb**

Roedd cytundeb cryf bod y codau yn gosod y sylfeini ond na fyddent, ar eu pen eu hunain, yn sicrhau bod pobl yn bartneriaid llawn. Roedd eraill yn cytuno bod y codau yn cynorthwyo partneriaeth lawn mewn egwyddor ond y byddai hyn dim ond yn wirioneddol amlwg mewn ymarfer. Roedd hyfforddiant a datblygu'r gweithlu yn elfen hanfodol o ran gwneud i hyn ddigwydd.

Nodwyd bod y fframwaith ‘pum elfen allweddol’ yn sicrhau bod pobl yn ganolog i bob asesiad, a bod y defnydd o'r egwyddor ‘yr hyn sy'n bwysig’ i roi'r pwyslais ar ganlyniadau personol fel prif ganolbwynt ymyriad yn cael ei wireddu drwy gydol y codau.

Cafwyd awgrym bod angen ymgyrch gyhoeddus eang yn y cyfryngau a chodi ymwybyddiaeth i helpu pobl i ddeall y newidiadau a disgwyliad y Ddeddf.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd cysondeb ar draws pob adran y codau ac nad oedd rhai rheoliadau'n cefnogi partneriaeth lawn - dyfynnwyd Rheoliad 6 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 fel gwrthddywediad.

Roedd rhai partneriaid iechyd yn teimlo bod y codau yn fwy perthnasol i awdurdodau lleol ac y byddent yn anodd eu cymhwyso os nad oedd partneriaid iechyd wedi eu cynnwys. Dylai'r cod yn Rhan 3 gael ei ddiwygio i ddweud bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda'u bwrdd iechyd lleol cysylltiedig.

Galwyd am ganllawiau ar wahân i ategu'r codau yn rhannau 2 a 3 y Ddeddf, a ddylai dynnu sylw at yr angen i gydbwyso gweithio mewn partneriaeth â'r defnydd o bwerau clir wedi eu mandadu pan fo'n briodol i ddiogelu plant a phobl ifanc a sicrhau y gallant gyflawni eu canlyniadau llesiant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae'r codau yn berthnasol i awdurdodau lleol yn unig. Fodd bynnag, bydd y cod ar ran 3 yn cael ei gryfhau i adlewyrchu'r angen am weithio mewn partneriaeth.

Bydd y cod ar ran 4 yn cael ei ddiwygio i ddarparu mwy o egluder a manylion am y prawf cymhwystra.

Yn dilyn gwaith grŵp Gorchwyl a Gorffen y Fframwaith Plant, mae'r codau ymarfer yn cael eu diwygio i bwysleisio'r ddyletswydd ganolog i ddiogelu plant a phobl ifanc a sicrhau y gallant gyflawni eu canlyniadau llesiant.

Mae Rheoliad 6 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 wedi cael ei ddiwygio i fod yn gynhwysol a sicrhau bod dinasyddion yn gallu cyfannu fel partneriaid llawn at ddylunio'r gwasanaethau maent yn eu derbyn.

Mae hyfforddi a chyfathrebu yn agweddau allweddol ar y gwaith y bydd Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid, yn ei gynorthwyo dros y cyfnod pontio. Yn lleol mae awdurdodau'n gyfrifol am hysbysu dinasyddion am eu hawliau o dan y Ddeddf. Nid yw swyddogion yn awgrymu rhaglen o godi ymwybyddiaeth y tu hwnt i'r rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd eisoes wedi ei chyhoeddi ac sy'n cael ei gweithredu.

## Cwestiwn 10:

| **A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?** |
|---|
| **Crynodeb** |

Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y Ddeddf yn rhoi mwy o annibyniaeth dros y gofal y mae unigolion yn ei dderbyn, yn enwedig mewn perthynas ag unigolion anabl a'r rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl.

Mae'r ymatebwyr yn teimlo y bydd effaith gadarnhaol o ran anabledd ac oedran oherwydd bydd gofal a chymorth yn cael eu cydgynhyrchu.

Mae ymateb cadarnhaol i'r Ddeddf yn hyrwyddo pwyslais yn unol â 'Mwy na Geiriau': Y Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

Pwysleisiodd yr ymatebion dystiolaeth fod unigolion Hoyw / Lesbiaidd / Trawsrywiol weithiau'n wynebu gwahaniaethu o ran cael mynediad i gymorth cymdeithasol, ac y gellir lliniaru'r gwahaniaeth hwn drwy'r newidiadau a gyflwynir yn y model arfaethedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**
Mae Llywodraeth Cymru yn falch bod mwy o lais a mwy o reolaeth yn cael eu cydnabod.

## Cwestiwn 11:

**A ydych yn credu y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig? Os felly, pa rai a pham/pam ddim?**

**Crynodeb**
Cwestiynodd yr ymatebwyr sut bydd y rheoliadau yn mynd i'r afael ag anghenion gofal sylfaenol unigolion digartref yng Nghymru.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r cyfeiriad yn y Ddeddf at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau gael ei ailddatgan yn y Cod Ymarfer

Gwnaeth yr ymatebwyr hefyd fynegi'r farn y dylai'r cod ymarfer gyfeirio at y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol.

Ceir galwad gref i ganllawiau statudol 2001 ar *Ofal Cymdeithasol i blant ac oedolion byddar a dall* gael eu cynnwys yn y cod ymarfer.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu ar gyfer pawb yn eu hawdurdod lleol, gan gynnwys pobl ddigartref. Gellir cyflawni hyn drwy ddull cyfannol gan weithio gyda'r dyletswyddau a ddarperir drwy'r Ddeddf Tai.

Cyfeirir at y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol yn y cod ac yn y cod ar Ran 2 o'r Ddeddf

Bydd canllawiau statudol 2001 ar Ofal Cymdeithasol i blant ac oedolion

byddar a dall yn cael eu hymgorffori yn y cod.

## Cwestiwn 12:

**Bydd ailgydbwyso’r system gofal a chymorth i gyflawni’r fframwaith cyfreithiol newydd yn galw am ailflaenoriaethu adnoddau. Beth yw’r camau allweddol sydd angen eu cymryd i gyflawni hyn?**

**Crynodeb**

Ceir cymysgedd o ymatebion ar sut y dylai awdurdodau lleol ailflaenoriaethu adnoddau.

Y flaenoriaeth gan lawer o ymatebwyr yw ailddyrannu adnoddau i hyfforddi staff a datblygu'r gweithlu. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys adnoddau nad ydynt yn ariannol fel mynediad i adnoddau dysgu, secondiadau a chyfle ar gyfer cydleoli. Yn yr un modd pwysleisir drwy lawer o'r ymatebion y dylai adnoddau gael eu hailflaenoriaethu tuag at sicrhau bod newid diwylliant sefydliadol yn cael ei hwyluso'n weithredol

Roedd llawer o ymatebwyr yn awyddus i weld datblygu canllawiau ymarfer i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth benderfynu ar y gymhareb fuddsoddi rhwng Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy, gwasanaethau ataliol, a chynllun gofal a chymorth.

Mae cais am gyfnod pontio ar gyfer cyllidebau a deiliaid cyllidebau i ystyried y newidiadau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu at weithredu. Bydd y grant Trawsnewid yn cynorthwyo awdurdodau lleol a'u partneriaid dros y flwyddyn nesaf wrth symud arfer ac ati a bydd y Grant Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn cael ei dargedu at hyfforddi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf.

## Cwestiwn 13:

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy'n benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod inni amdanynt.**

**Crynodeb**

Cafwyd cais i'r holl ofynion newydd o'r Ddeddf a'i hofferynnau statudol cysylltiedig gael eu rhestru mewn un ddogfen unigol er hwylustod.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhywfaint o'r derminoleg yn rhy amwys ac y gellid ei dehonglu mewn amrywiaeth eang o ffyrdd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Bydd codau ymarfer ar gyfer pob rhan o'r Ddeddf yn cael eu croesgyfeirio a byddant yn ffurfio cyfres o godau ar gyfer cymhwyso gofynion statudol y ddeddfwriaeth a chynorthwyo cyflawni'r newid system gyfan a gyflwynir gan y Ddeddf.

## Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y newid system arfaethedig i ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau gyda phroses asesu a chynllunio gofal wedi'i symleiddio a mwy o integreiddio gwasanaethau. Yn arbennig, roedd cefnogaeth glir gan ein partneriaid statudol. Nododd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a CLILC: “Mae angen bod yn gwbl eglur ynghylch y defnydd o'r fframwaith cymhwyster yn y dyfodol i alluogi pobl i gael trafodaethau am yr hyn a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'w bywyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar a ydynt yn gymwys i gael gofal a chymorth.”

Mae'r gefnogaeth hon yn adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed drwy'r grwpiau technegol ac ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid yn ystod y broses o ddatblygu'r rheoliadau a'r codau ymarfer. O ganlyniad cafodd y dull a gymerwyd gefnogaeth eang ond gwnaeth yr ymatebion amlinellu rhai meysydd penodol i'w hystyried ymhellach.

I fynd i'r afael â'r materion a godwyd mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n uniongyrchol gyda chynrychiolwyr o'r sefydliadau perthnasol i fireinio ymhellach y rheoliadau a'r codau ymarfer a mynd i'r afael â'r materion penodol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

<u>Asesu</u>
Nid ystyriwyd bod rhannu'r broses asesu yn ddau gategori (a ddynodir yn ‘syml’ a ‘chymhleth’) yn adlewyrchu'r cymesuredd dull a ddymunir. Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio i adlewyrchu dull mwy cyson tuag at asesu tra'n cadw'r egwyddorion craidd a chymesuredd a chydgynhyrchu.

Yn ogystal bydd un Dull Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol yn cael ei ddatblygu i ategu gweithredu'r model newydd.

<u>Plant</u>
Roedd y rhai a wnaeth sylwadau ar y model newydd o ran gwasanaethau i blant yn ddiamwys o ran eu cefnogaeth i'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd gan nodi ei fod wedi “gweithio'n dda” ac y byddai'n “peri trafferth pe bai'n cael ei ollwng, dim ond er mwyn cysoni dull â gwasanaethau oedolion” (ADSS Cymru).

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno, am y tro cyntaf, reoliadau am asesu anghenion plant a chymhwystra'r anghenion hynny i'w diwallu gan yr awdurdod lleol sy'n darparu gwasanaethau neu'n trefnu i wasanaethau gael eu darparu. Bydd y codau ymarfer yn cael eu diwygio i adlewyrchu ac integreiddio'r Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd.

Ers i'r ymgynghoriad ddod i ben mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o'r sectorau Statudol, Gwirfoddol a Rheoleiddiol i gynghori ar ailddrafftio'r cod. Dyma'r newidiadau allweddol y cytunwyd arnynt â'r grŵp hwn:

- Bydd y cod yn pwysleisio bod y broses asesu ar gyfer plant yn ymwneud â sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn cael ei fodloni a bod plant yn cael eu diogelu fel eu bod yn cyrraedd neu'n cynnal lefel foddhaol o iechyd a datblygiad, neu sicrhau na fydd amharu sylweddol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

- Bydd y cod yn ymgorffori'r egwyddorion sy'n sail i'r Fframwaith Asesu sy'n darparu ar gyfer asesiadau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn ymgorffori'r egwyddor o roi blaenoriaeth i les y plentyn.

- Bydd y broses asesu ar gyfer plant yn parhau â'r gofyniad bod ymarferwyr yn casglu tystiolaeth fel sy'n cael ei lywio gan dri pharth y Fframwaith Asesu ac yna bydd yn cael ei dadansoddi yn erbyn pum elfen yr asesiad i lywio, lle y bo angen, y cynllun gofal a chymorth.

- Bydd y cod yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu nad yw gweithio gydag aelodau o'r teulu yn nod ynddo'i hun; rhaid sicrhau mai'r amcan bob amser yw diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Ni fydd bob amser yn hawdd datblygu perthynas waith gyda phlant ac aelodau o'r teulu a gall fod yn anodd yn enwedig pan fu pryderon am niwed sylweddol i'r plentyn. Waeth pa mor wrthwynebol mae'r teulu neu waeth pa mor anodd yw'r amgylchiadau, mae'n parhau'n bwysig ceisio dod o hyd i ffyrdd o gynnwys y teulu yn y broses asesu.

- Bydd y Cod ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid diystyru penderfyniad i wrthod asesiadau lle byddai gwrthod o'r fath yn anghyson â llesiant y plentyn.

- Bydd y Cod yn datgan yn benodol bod y cyfnod pontio o fod yn blentyn i fod yn oedolyn yn cyfateb i newid sylweddol mewn amgylchiadau.

- Lle ceir cais i wasanaethau gael eu darparu gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Gall yr ymateb gynnwys dim gweithredu, neu wybodaeth neu gyngor na fyddai'n arwain at yr awdurdod lleol yn cymryd/cyflawni camau uniongyrchol - mae hynny ynddo'i hun yn benderfyniad a dylid ei wneud yn brydlon a'i gofnodi. Os na ellir datrys y materion a dod i gytundeb drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor yna bydd y person yn symud ymlaen i asesiad.

- Mae amserlenni ar gyfer asesu yn cael eu hystyried o hyd. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan wedi cytuno i symud i uchafswm o 42 diwrnod er mwyn asesu anghenion plentyn ar gyfer gofal a chymorth. Mae'r syniad o ddyddiadau cyflawni 'terfynol' ar gyfer cynllunio gofal a chymorth i blant yn cael ei gynghori hefyd.

<u>Y Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol</u>
Roedd yr ymatebion yn cefnogi'r dull o ran cymhwystra ond roeddent am gael mwy o eglurder a manylion am gymhwyso'r prawf cymhwystra.

Roedd yr ymateb gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn cydnabod bod y dull newydd at gymhwystra yn newid i ffwrdd o'r arfer o ddefnyddio meini prawf cymhwystra i ddidoli a "dweud na" yn bennaf. Nododd yr ymateb hwn, ynghyd â sawl ymateb arall fod y prawf cymhwystra hwn yn gadael lle i arfer barn broffesiynol a nodwyd y gall fod yn anodd ceisio sicrhau cysondeb.

Dangosodd dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fod tuedd ymhlith awdurdodau lleol i gytuno y bydd dull newydd o ddyfarnu cymhwystra yn sicrhau trothwy cenedlaethol ac yn cynorthwyo cyflawni cyson. Ymhlith asiantaethau gwirfoddol roedd cefnogaeth gadarn ar gyfer y dull newydd hwn o ran cymhwystra, ond roedd asiantaethau partner, gan gynnwys cyrff iechyd, yn tueddu i anghytuno.

Nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi arwain Llywodraeth Cymru i wrthod argymhelliad adroddiad y Grŵp Technegol ar Gymhwystra (a lywiwyd gan adroddiad cynharach Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol: *Mynediad i Ofal a Lles yng Nghymru 2013)* bod gan y fframwaith cymhwystra hwn y potensial i fynd i'r afael â'r angen i hyrwyddo gwasanaethau cymunedol a llesiant sy'n hygyrch ac yn lleihau dibyniaeth amhriodol ar wasanaethau cymdeithasol tra'n sicrhau y bydd gan y rhai nad ydynt yn gallu rheoli eu gofal eu hunain hawl i ofal a chymorth a reolir ac a ddarperir ar eu rhan.

Nid oedd y sylwadau wedi arwain Llywodraeth Cymru i ystyried na fyddai'r dull arfaethedig o ddyfarnu cymhwystra yn opsiwn cynaliadwy ar gyfer darparu gofal a chymorth cymdeithasol dros yr hirdymor. Roedd yr ymatebion yn cydnabod y dull fel un sydd "â'r potensial i gynorthwyo gwasanaethau cymdeithasol trawsnewidiol yng Nghymru" (Cyngor Sir y Fflint) a galwyd am ganllawiau clir i ymarferwyr er mwyn sicrhau cyn lleied o anghysondebau â phosibl o ran ei gymhwyso. Mae'r Cod Ymarfer yn cael ei ddiwygio, drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, i roi mwy o fanylion ac eglurder yn y broses o gymhwyso dyfarnu cymhwystra. Bydd hyn yn cynnwys Offeryn Asesu a Chymhwystra Cenedlaethol.

Roedd pryder y gall fod yn ofynnol i unigolion ‘brofi’ bod angen cynllun gofal a chymorth arnynt drwy ‘roi cynnig’ ar wasanaethau cymunedol amhriodol cyn sefydlu eu cymhwystra.  Er mwyn atgyfnerthu atebolrwydd proffesiynol, bydd y cod yn cael ei ddiwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol pan fydd awdurdod lleol, drwy'r asesiad, yn penderfynu na fydd angen yn cael ei ddiwallu gan gynllun gofal a chymorth bydd gofyniad i'r awdurdod lleol hwnnw nodi yn y cofnod asesu sut y mae'n ystyried y bydd y cam gweithredu arfaethedig yn helpu rhywun i gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol.  Bydd hyn yn rhoi datganiad i ddinasyddion ar gyfer seilio unrhyw anghytundeb arno o ran y ffordd orau y gellir eu cynorthwyo i ddiwallu eu canlyniadau personol a llesiant a nodwyd.

O ganlyniad i'r sylwadau a gafwyd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu comisiynu gwerthusiad i alluogi ystyried effaith y model cenedlaethol newydd o gymhwystra.

Gofalwyr

Mae grwpiau gofalwyr yn pwysleisio pwysigrwydd cymorth ymatebol i fodloni galluoedd cyfnewidiol gofalwyr i ddiwallu anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt ac maent yn pryderu y bydd tuedd i gymryd yn ganiataol bod gofalwyr yn gallu diwallu anghenion y rhai maent yn gofalu amdanynt.

Mae'r rheoliadau wedi eu hailddrafftio ac mae'r cod ymarfer yn cael ei ddiwygio i egluro ystyried y cymorth a geir gan eraill fel rhan o ddyfarnu cymhwystra.  Bydd y dull newydd yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau gydnabod a chofnodi'r cyfraniad mae gofalwyr yn ei wneud at yr hyn a fyddai fel arall yn cael eu dyfarnu fel anghenion cymwys.  Mae'r offerynnau statudol hefyd yn cydnabod y gall gofalwr fethu darparu gofal ac y gallant fod yn amharod i'w ddarparu.  Ni ddylid tybio'n awtomatig y bydd gofalwyr yn diwallu anghenion.

Eirioli

Mae cyfeiriad cryfach at eirioli yn cael ei ymgorffori yn y broses asesu.  Eir i'r afael â hyn drwy welliannau i'r codau ymarfer ar asesu a chanllawiau manwl ar eirioli yn y cod ymarfer ar Ran 10 sy'n cael ei baratoi ar gyfer yr ail gyfres o ymgyngoriadau.

Terminoleg

Mewn mannau cafodd y defnydd o iaith a therminoleg ei herio gan awgrymu ei fod yn atgyfnerthu hen ddeddfwriaeth, ethos a diwylliant.  Mewn ymateb i sylwadau gan Grwpiau Anabledd bydd y codau yn cynnwys cyfeiriad mwy

amlwg at y model cymdeithasol o anabledd a chyfeirio'n benodol at Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol: Pecyn Galluogi i Gymru.

Nam ar y Synhwyrau
Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Sense Cymru ar y gofynion allweddol o ganllawiau 2001, a gafodd eu hailgyhoeddi yn 2014, a fydd yn cael eu hymgorffori yn y codau ymarfer a gyhoeddir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyfathrebu
Mae grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nam ar eu synhwyrau ac anableddau eraill yn cynghori y dylid cael cyfeiriad penodol at gydnabod anghenion cyfathrebu fel rhwystr yn y broses asesu. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn y codau ac mewn gwelliant i'r rheoliadau cymhwystra.

Nododd yr ymatebion rai newidiadau posibl i reoliadau ac amlinellwyd rhai meysydd o bryder ehangach hefyd. Aed i'r afael â'r rhain drwy ailddrafftio'r codau ymarfer a gwelliannau i reoliadau.

Roedd consensws ymhlith ymatebwyr na fyddai newid diwylliannol yn digwydd heb ymwybyddiaeth y cyhoedd a strategaethau cyfathrebu integredig cadarn i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r agenda rymuso gyffredinol. Byddai angen i hyn gyd-fynd â chynllun cadarn ar gyfer datblygu'r gweithlu ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol er mwyn cyflawni fframwaith wedi'i ailfodelu a chyson.

Taliadau Uniongyrchol
Croesawodd yr ymatebwyr y newidiadau a gynigiwyd gan y ddeddfwriaeth a'r cod o ran estyn taliadau uniongyrchol. Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu gweld fel rhan annatod o'r fframwaith ehangach o gymhwystra, asesu, a chynllunio cymorth ac nid fel endid ar wahân.

Cafodd y newidiadau'n ymwneud â chyflogi perthnasau agos eu croesawu fel rhai sy'n cynorthwyo parhad gofal a chydnabod dewis personol defnyddwyr gwasanaethau. Nodwyd rhywfaint o bryder bod y rheoliadau yn dal i roi gormod o le ar gyfer disgresiwn yr awdurdod lleol.

Mae adolygiadau a monitro yn darparu dull ar gyfer rheoleiddio sut y mae gofalwyr sy'n berthnasau yn cyflawni eu hamcanion. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â monitro ac adolygu yn cael eu cryfhau yn y cod. Bydd y rhain yn darparu camau diogelu priodol i sicrhau diogelwch yr unigolyn a bod ei ddymuniadau a'i deimladau yn cael eu hamddiffyn wrth wneud penderfyniadau.

Mae Rheoliad 6 o'r cod ar daliadau uniongyrchol wedi cael ei ddiwygio i egluro bod barn y derbynnydd yn ffactor sylweddol i'w gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Teimlwn fod cryfhau'r pŵer rheoleiddio yn y modd hwn yn cyflawni'r cydbwysedd cywir wrth fynd i'r afael â'r pryderon a gafwyd.

Gweithlu

Mae Awdurdodau Lleol yn gefnogol i'r model ond maent yn pwysleisio'r angen am hyfforddiant staff i alluogi gweithredu'r dull newydd yn gyson.
Roedd consensws ymhlith ymatebwyr na fyddai newid diwylliannol yn digwydd heb ymwybyddiaeth y cyhoedd a strategaethau cyfathrebu integredig i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r agenda rymuso gyffredinol. Byddai angen i hyn gyd-fynd â chynllun cadarn ar gyfer datblygu'r gweithlu ar draws y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol er mwyn cyflawni fframwaith wedi'i ailfodelu a chyson.

Mae Cyngor Gofal Cymru, fel y corff arweiniol ar gyfer datblygu'r gweithlu, wedi cael ei gomisiynu i arwain ar ddatblygu a gweithredu strategaeth dysgu a datblygu genedlaethol. Mae'r strategaeth yn allweddol i weithredu'r Ddeddf a bydd angen arweinyddiaeth barhaus, fwriadol a phroffil uchel, a all estyn allan ar draws amrywiaeth eang o sefydliadau a phartneriaid y tu hwnt i ffiniau'r sector gofal cymdeithasol traddodiadol.
Mae'r Cyngor Gofal wedi datblygu'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gennym strategaeth sy'n cwmpasu pawb sy'n ymwneud â darparu gofal cymdeithasol, ynghyd â'u partneriaid allweddol, a'i bod yn cael ei chyflawni ar y cyd â'r partneriaid hynny ac mewn cydweithrediad â hwy.

Roedd cefnogaeth gref ar gyfer neilltuo rôl cydlynydd a barn gref iawn gan asiantaethau gwirfoddol bod yn rhaid i'r aseswr feddu ar sgiliau priodol i ddeall anghenion penodol y person sy'n cael ei asesu. Pwysleisiwyd hyn gryfaf mewn perthynas â sgiliau cyfathrebu. Aed i'r afael â'r pwyntiau hyn drwy welliannau i'r rheoliadau a'r codau, a bydd materion ynghylch neilltuo rolau yn destun camau gweithredu yn y dyfodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r fforwm partneriaeth cenedlaethol, y grŵp arweiniad a phanel y dinasyddion i gynorthwyo'r newid hwn, a sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn parhau wrth wraidd ein rhaglen ar gyfer newid.

Yn ogystal, bydd swyddogion yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau ar feysydd fel y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn a Phobl Hŷn a Chydraddoldeb.

## Atodiad A - Rhestr o ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol Ydy | Nac Ydy | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| 1. | ✔ | | | |
| 2. | | ✔ | Fiona Wilke | Unigolyn |
| 3. | | ✔ | Ms Maxine Norrish | Myfyriwr RTP Prifysgol Caerdydd |
| 4. | | ✔ | Gillian Cooper | Prifysgol Caerdydd |
| 5. | ✔ | | | |
| 6. | | ✔ | Laura Tuckley | Unigolyn |
| 7. | | ✔ | Charlotte Beare-ar ran Bwrdd Iechyd Hywel Dda gan Dr Phil Kloer | Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| 8. | | ✔ | Cheryl Bulman | Unigolyn |
| 9. | | ✔ | Dr Aideen Naughton | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| 10. | | ✔ | Ruth Northway | Grŵp cynghori ar anableddau dysgu |
| 11. | | ✔ | Zoë Williams | Grŵp Trosolwg Taliadau Uniongyrchol |
| 12. | | ✔ | Zoë Williams | Fforwm Taliadau Uniongyrchol Cymru Gyfan |
| 13. | | ✔ | Beth Evans | Gofalwyr Cymru |
| 14. | ✔ | | | |
| 15. | | ✔ | Gareth Cooke | Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen |
| 16. | | ✔ | Lynne Doyle | CBS Castell-nedd Port Talbot |
| 17. | | ✔ | Mike Mainwaring | Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot |
| 18. | | ✔ | Dr Catrin Mair Edwards | Sense Cymru |
| 19. | | ✔ | Vin West | Grŵp Mynediad Arfon |
| 20. | | ✔ | Eve Parkinson - | Pwyllgor Cynghori Therapi Cymru |
| 21. | | ✔ | Colin Hopwood | Unigolyn |
| 22. | | ✔ | Simon Legg | Cymdeithas Anafiadau i'r Asgwrn Cefn |
| 23. | | ✔ | Rachel Williams | Parkinson's UK Cymru |
| 24. | ✔ | | | |
| 25. | | ✔ | Ann Acock | Grŵp Cynghori Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru |
| 26. | ✔ | | | |
| 27. | | ✔ | dd/b (Nigel Champ - e-bost) | Cadeirydd Pwyllgor Meddygol Cymru |
| 28. | | ✔ | Joe Powell | Pobl yn Gyntaf Cymru |
| 29. | | ✔ | Hannah Isaacson | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys |
| 30. | | ✔ | Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru a Blind Children UK Cymru |
| 31. | | ✔ | Natasha Wynne | Marie Curie |
| 32. | | ✔ | Cecile Gwilym | NSPCC Cymru |
| 33. | | ✔ | Peter Martin | Hafal |
| 34. | | ✔ | Meleri Thomas | Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru |
| 35. | | ✔ | Tess Saunders, | RNIB CYMRU |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 36. | | ✔ | Laura Cook | Cymdeithas Alzheimer's |
| 37. | | ✔ | Liz Majer | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| 38. | | ✔ | DEBBIE POWELL | GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PARTNERIAETH – Y DE-DDWYRAIN (SCiPse) |
| 39. | | ✔ | Edwin Jones | Is-grŵp LDAG - Trawsnewid Gofal yng Nghymru i bobl ag anableddau dysgu ac ymddygiad heriol |
| 40. | | ✔ | James Crowe | Anabledd Dysgu Cymru |
| 41. | | ✔ | Lynne Hughes | Cymdeithas MS Cymru |
| 42. | | ✔ | Paul Swann / Rick Wilson | Anabledd Cymru / Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion |
| 43. | | ✔ | Kelly Ball | Pobl yn Gyntaf Casnewydd |
| 44. | | ✔ | Alex Perry | Pobl yn Gyntaf Casnewydd (ymddiriedolwr) |
| 45. | | ✔ | Allan | Aelod o Pobl yn Gyntaf Casnewydd |
| 46. | | ✔ | Zarah Kaleem | Ymddiriedolwr Pobl yn Gyntaf Casnewydd |
| 47. | | ✔ | Deborah Driffield | Gwasanaethau Cymdeithasol Dinas a Sir Abertawe |
| 48. | | ✔ | Lola Richards | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 49. | | ✔ | Dim Enw | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 50. | | ✔ | Jacqueline Davies | CPPI |
| 51. | | ✔ | Ruth Crowder | Coleg y Therapyddion Galwedigaethol |
| 52. | | ✔ | Kieron Rees | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| 53. | | ✔ | Ruth Crowder | Cynghrair Ailalluogi Cymru |
| 54. | | ✔ | Ann James | Cyngor Gofal Cymru |
| 55. | | ✔ | Robin Moulster | BASW Cymru |
| 56. | | ✔ | Ruth Coombs | Mind Cymru |
| 57. | ✔ | | | |
| 58. | | ✔ | Hywel Ap Dafydd | Comisiynydd Plant Cymru |
| 59. | | ✔ | Dr Sam Clutton | Barnardo's Cymru |
| 60. | ✔ | | | |
| 61. | | ✔ | Caroline Hawkings | Scope Cymru |
| 62. | | ✔ | Judith Brooks | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 63. | | ✔ | Catherine Manning | Y Groes Goch Brydeinig |
| 64. | | ✔ | Philippa Ford | Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi |
| 65. | | ✔ | Holly Towell | Headway |
| 66. | | ✔ | Bethan Jones Edwards | Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru |
| 67. | | ✔ | Alice Southern | Cymdeithas Alzheimer's |
| 68. | | ✔ | Dusty Kennedy | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid |
| 69. | | ✔ | Ian Thomas | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| 70. | | ✔ | Nicola Evans | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| 71. | | ✔ | Jenny Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| 72. | | ✔ | Catherine Poulter | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 73. | | ✔ | Ele Hicks | Diverse Cymru |
| 74. | | ✔ | Erin Rodgers | Yr Ymddiriedolaeth Anableddau |
| 75. | | ✔ | Giovanni Isingrini | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 76. | | ✔ | Sue O'Grady | Cyngor Sir Powys |
| 77. | | ✔ | Paul Apreda | FNF Both Parents Matter Cymru |
| 78. | | ✔ | Suzanne Griffiths | Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol |
| 79. | | ✔ | Catherine Lewis | Rhwydwaith Rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Anabl Gogledd Cymru |
| 80. | ✔ | | | |
| 81. | | ✔ | Dominic Carter | Cymdeithas Gofal Cartref y DU |
| 82. | | ✔ | Catherine Lewis | Rhwydwaith Rheolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Plant Anabl Gogledd Cymru |
| 83. | | ✔ | Sian Walker, Tony Young | Cyngor Caerdydd |
| 84. | ✔ | | | |
| 85. | | ✔ | Martyn Palfreman | Cydweithfa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| 86. | | ✔ | Rosanne Palmer | Age Cymru |
| 87. | | ✔ | Gill Paul | Cyngor Gwynedd |
| 88. | | ✔ | Michael Nicholson | Cyngor Sir Casnewydd |
| 89. | | ✔ | Mair Kromei | Bwrdd Iechyd Hywel Dda |
| 90. | | ✔ | Iola Richards | Cyngor Sir Ynys Môn |
| 91. | | ✔ | Judith Brooks | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| 92. | | ✔ | Phil Evans | Bro Morgannwg |
| 93. | | ✔ | Owen Williams | Cyngor Cymru i'r Deillion |
| 94. | | ✔ | Judith Hall | AGGCC* - Bwrdd Cynghori Cenedlaethol |
| 95. | | ✔ | Sara Harvey | Rhaglen Bae'r Gorllewin |
| 96. | | ✔ | | Voices from Care Cymru |
| 97. | | ✔ | Roger Bishop | Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan |
| 98. | | ✔ | Katie Dalton | Gofal |
| 99. | | ✔ | Marshall Phillips | Is-Bwyllgor Cymdeithas Barnwyr Rhanbarth Ei Mawrhydi |
| 100 | | ✔ | Bobby Bolt | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| 101 | | ✔ | Catrin Edwards | Sense Cymru |
| 102 | | ✔ | | Gofalwyr Cymru |
| 103 | | ✔ | Anselm Benedict | Cymdeithas y Cyfreithwyr |